# Cyhoeddi papurau cyfarfod Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ym mis Rhagfyr 2024

Cynhelir y cyfarfod yn Ystafell Harvey Goodwin yn Church House, Dean's Yard, Llundain, dan gadeiryddiaeth yr Athro Susan Jebb, cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB).

Mae'n gyfarfod agored y gall aelodau'r cyhoedd ddod iddo. Bydd yn dechrau am 9.00am, ddydd Mercher, 11 Rhagfyr. Cofrestrwch yma os hoffech ddod i'r cyfarfod  yn bersonol neu os hoffech ymuno ar-lein.

Mae agenda'r cyfarfod hwn yn cynnwys:

- Rheoleiddio ar Lefel Genedlaethol
- Gwerthusiad o'r Gyfundrefn Codi Tâl am Gig
- Ceisiadau am Fwydydd Newydd sy'n cynnwys CBD

Mae'r agenda lawn a'r papurau sydd wedi'u cyhoeddi ar gael ar dudalennau'r Bwrdd ar ein gwefan (Saesneg yn unig).

## How to register for the open Board meeting

Mae croeso i aelodau'r cyhoedd  ddod i'r cyfarfod hwn. Cofrestrwch yma os hoffech ddod i'r cyfarfod yn bersonol.

Os oes angen help arnoch i gofrestru, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni:

- Ffôn: 01772 767731
- E-bost:?fsaboardmeetings@onetwo.agency

Yn ogystal, gallwch gofrestru i wylio'r cyfarfod yn fyw ar-lein.?

## Sut i gofrestru ar gyfer cyfarfod agored y Bwrdd

Mae Bwrdd yr ASB yn croesawu cwestiynau ar bapurau a gyhoeddwyd i'w trafod yn ei gyfarfodydd.

Gallwch gyflwyno'ch cwestiwn gan ddefnyddio'r ffurflen hon hyd at 5pm ar y dydd Llun cyn cyfarfod y Bwrdd.  Sylwch fod cyfyngiad o 350 o eiriau ar y ffurflen i sicrhau bod eich cwestiwn yn gryno, er mwyn i ni allu mynd i'r afael ag ef yn llawn.

Bydd cwestiynau a ddaw i law yn y fformat hwn yn cael eu cyhoeddi y diwrnod cyn cyfarfod y Bwrdd.

Byddwn yn anelu at anfon ateb atoch trwy e-bost o fewn 20 diwrnod gwaith i gyfarfod y Bwrdd, a bydd ymatebion hefyd yn cael eu cyhoeddi.

Ar gyfer cwestiynau nad ydynt yn ymwneud ag un o'r papurau sydd ar yr agenda, neu ar gyfer gohebiaeth sy'n hirach nag y mae'r ffurflen ar-lein yn ei ganiatáu, anfonwch e-bost i ?correspondence@food.gov.uk?a byddwn yn anelu at ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith.  Sylwch

na fydd y cyflwyniadau hyn a’u hatebion yn cael eu cyhoeddi fel arfer.